



TRANSITION PLAN 2009-10

CYNLLUN PONTIO

Queen Elizabeth High School Family of Schools
Teulu Ysgolion Ysgol Uwchradd Y Frenhines Elisabeth



Ysgolion yn y Partneriaeth/Partnership Schools:

Abergwili, Abernant, Glan-y-Fferi, Johnstown, Llangain, Llangynnwr, Llangynog, Llansteffan, Model, Myrddin, Peniel, Queen Elizabeth High School, Richmond Park, St Mary's

Partneriaid Cydymeithiol/Associate Partners:

Bancyfelin, Cynwyl Elfed, Meidrim, Ysgol Y Fro, Nantgaredig

Cyflwyniad

1. Mae dogfen Llywodraeth Cynulliad Cymru, 'Y Wlad sy'n Dysgu', yn ymrwmo i sicrhau gwell pontio rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd, fel bod hynny yn:	
A	Cyfrannu'n sylweddol i godi safonau ar gyfer rhai rhwng 11 - 19 oed;
B	Cadarnhau'r ysfaf i ychwanegu gwerth i'r safonau a gyrhaeddwyd rhwng 3 - 11 oed;
C	Cysylltu □'r cytundebau rhwng ysgolion ac awdurdodau addysg lleol, e.e. y Cytundeb Asesu, a Chytundeb Partneriaeth AALI/Ysgolion
2. Fel teulu o ysgolion ymrwymwn i:	
A	Gynnal a chryfhau'r momentwm a sefydlwyd yn ein holl Ysgolion Cynradd;
B	Sicrhau disgwyliadau addas uchel o'r hyn y gall pob disgybl ei gyflawni;
C	Sicrhau parhad, cydlyniant a dilyniant wrth gynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm;
CH	Sicrhau datblygiad sgiliau allweddol llythrennedd, rhifedd, TGC a sgiliau meddwl;
D	Sicrhau datblygiad dwyieithrwydd, creadigedd a strategaethau sy'n annog plant trwy 'dysgu i ddysgu';
DD	Gwella yn barhaus ansawdd addysgu a dysgu trwy bartneriaeth a rhannu ymarfer;
E	Sicrhau bod cysylltiadau bugeiliol ar gael i gwrdd ag anghenion personol a chymdeithasol pob disgybl.
3. Dymunwn i'n plant deimlo:	
A	Eu bod yn barod yn gymdeithasol i drosglwyddo i'w hysgol newydd;
B	Yn hapus a diogel yn eu hysgol newydd;
C	Eu bod yn symud ymlaen ac yn gwneud cynnydd yn eu haddysg;
CH	Bod eu llwyddiannau academig, personol, diwylliannol ac ar y maes chwarae, neu eu doniau yn cael eu nodi, eu defnyddio a'r gorau yn cael eu gwneud ohonynt.

DS - cofnodir canlyniadau penodol yng nghofnodion cyfarfodydd Grŵp Penaethiaid y Bartneriaeth

1. RHEOLAETH, CYDLYNIANT A GWERTHUSO		
Gweithredu	Amserlen	Cyfrifoldeb
1.1 Cyfarfodydd cyson o Grŵp Llywio Penaethiaid y Bartneriaeth i oruchwylio gweithredu'r cynllun, a gwerthuso ei lwyddiant;	O leiaf unwaith y tymor	Penaethiaid (a staff allweddol eraill / llywodraethwyr) o bob ysgol yn y teulu.
1.2 Ysgrifennu, gweithredu, monitro a gwerthuso polisiau a dulliau y cytunwyd arnynt ar y cyd	Parhaus; gwerthuso yn nhymor yr haf	Ei gynllunio gan Grŵp Llywio Penaethiaid y Bartneriaeth mewn ymgynghoriad <input type="checkbox"/> staff, a'i weithredu ar draws pob ysgol.

2. CYNLLUNIO CWRICWLWM AR Y CYD		
Gweithredu	Amserlen	Cyfrifoldeb
2.1 Cyfarfodydd cynllunio cwricwlwm ar y cyd ar ddull rhaglen dreigl gan ganolbwyntio ar ddatblygu'r holl sgiliau allweddol [yn arbennig llythrennedd, rhifedd TGC a sgiliau meddwl] ar draws y cwricwlwm	Blynyddol	Cydlynwyr pynciau Cynradd ac Uwchradd
2.2 Defnyddio platfform dysgu ar gyfer holl ysgolion y bartneriaeth er mwyn cael mynediad i raglenni gwaith ac adnoddau cwricwlwm	Parhaus	Yr holl staff

3. DILYNIANT MEWN DYSGU AC ADDYSGU		
Gweithredu	Amserlen	Cyfrifoldeb
3.1 Rhaglen barhaus i ryddhau staff o bob Cyfnod Allweddol i arsylwi ymarfer a datblygu addysgeg fel y bydd adnoddau yn caniatáu	Pan yn bosibl	Staff addysgu
3.2 Defnyddio unedau pontio ar agweddau neu feysydd pynciol y cytunwyd arnynt	Tymhorau'r Haf a'r Hydref	Athrawon BI6 ac athrawon pwnc BI7
3.3 Dyddiau profi gyda disgyblion cynradd yn ymweld â'r ysgol uwchradd ar gyfer rhai gweithgareddau	Blynyddol	Disgyblion ac athrawon BI5 a BI6 gyda holl staff yr ysgol uwchradd
3.4 Disgyblion cynradd yn ymweld yn gyson â'r ysgol uwchradd ar gyfer rhai gweithgareddau	Pan yn bosibl	Meysydd pynciol perthnasol
3.5 Dyddiau hyfforddiant ar y cyd ar faterion o ddiddordeb a pherthnasedd cyffredin	Blynyddol	Yr holl staff
3.6 Pob ysgol yn y bartneriaeth i gwrdd â Strategaeth Genedlaethol Sgiliau Sylfaenol gyda chymorth allanol	Bob tair blynedd	Yr holl staff
3.7 Lleihau'r nifer o staff sy'n cyflwyno'r cwricwlwm ym MI7, gydag un aelod o staff yn addysgu mwy nag un pwnc, lle'n ymarferol, e.e. trwy "Meddwl Mlaen"	Parhaus	Dirprwy Bennaeth Uwchradd / staff addysgu perthnasol
3.8 Defnydd o un ystafell ddosbarth i ddysgu nifer o bynciau ym MI7 er osgoi gormod o symud trwy'r ysgol, lle mae hynny'n ymarferol	Parhaus	Dirprwy Bennaeth Uwchradd / staff addysgu perthnasol
3.9 Rhannu ymarfer i gwrdd ag anghenion disgyblion 'mwy abl a thalentog'	Parhaus	Staff addysgu o'r holl ysgolion

4. CYSONDEB WRTH ASESU, MONITRO A CHADW GOLWG

Gweithredu	Amserlen	Cyfrifoldeb
4.1 Dulliau cyson ystyrion, yn dangos cysondeb a hawdd eu rheoli i asesu, monitro a chadw golwg. Golyga hyn ambell ddiwrnod ar y cyd i gynllunio	Parhaus	Holl staff ysgolion y bartneriaeth
4.2 Datblygu a defnyddio portffolios fel teulu ar gyfer Sgiliau Allweddol [a hynny yn electronig os yn bosibl]	Parhaus	Holl staff ysgolion y bartneriaeth

5. CYSYLLTIADAU BUGEILIOL EFFEITHIOL

Gweithredu	Amserlen	Cyfrifoldeb
5.1 Dyddiau hyfforddi ar y cyd ar faterion perthnasol	Yn ôl yr angen	Yr holl staff perthnasol
5.2 Ymweliad gan Bennaeth yr Ysgol Uwchradd (neu aelod arall o'r staff hŷn) i siarad â disgyblion Bl6 i'w paratoi ar gyfer eu hysgol newydd	Tymor yr Hydref	Pennaeth Uwchradd [neu aelod arall o'r staff hŷn]
5.3 Defnyddio disgyblion o'r ysgol uwchradd i siarad â disgyblion Bl6 ac ateb cwestiynau am fywyd yn yr ysgol uwchradd	Blynyddol	Trawstoriad o ddisgyblion Bl7 o'r ysgol gynradd lle daethant ohoni
5.4 Cynnwys disgyblion Bl6 mewn digwyddiad diwylliannol neu chwarae	Blynyddol	Perthnasol i feysydd pynciol ac athrawon Bl6
5.5 Ymweliadau pontio, yn cynnwys 'Gwibdaith bydi' i bob disgybl Bl6	Blynyddol	Staff perthnasol a disgyblion Bl 6
5.6 Cwrdd â disgyblion agored i niwed ar ymweliadau i'r ysgol gynradd	Blynyddol	Swyddog Cyfnod Allweddol

6. GWYBODAETH AM YMDDYGIAD, PRESENOLDEB A CHYFLAWNIADAU DISGYBLION

Gweithredu	Amserlen	Cyfrifoldeb
6.1 Yr wybodaeth graidd isod i'w roi gan yr ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd: <ul style="list-style-type: none"> • Lefelau diwedd Cyfnod Allweddol 2 yn y pynciau craidd; • Marciau a sgôr profion safonedig; • Cwblhau'r 'Unedau Pontio'; • Cofnodion presenoldeb; • Gwybodaeth am iechyd; • Manylion cofnodion, gan gynnwys CAP/IEP neu ddatganiad o anghenion addysgol (lle mae hynny'n berthnasol); • Cynllun Cefnogi Ymddygiad (lle mae hynny'n berthnasol); • Manylion am gyflawniadau penodol, galluoedd e.e. mewn cerdd, chwaraeon, arlunion, TGC ac ati; • Grwpiau Cyfeillgarwch; • Unrhyw wybodaeth arall berthnasol a allai effeithio pontio llwyddiannus – yn gymdeithasol neu academig. 	Gynted â bo modd yn nhymor yr haf [yr union amser i'w drefnu eto]	Penaethiaid Cynradd a Chydlynwyr Asesu, athrawon Bl6, Swyddog Cyfnod Allweddol a staff uwchradd perthnasol. Llawer o'r wybodaeth i'w gynnwys ar gyfer ysgolion uwchradd gan yr AAL trwy Ffeil Bontio Gyffredin
6.2 Adborth ar gynnydd disgyblion Bl7 i'r ysgolion cynradd perthnasol	Parhaus	Swyddog Cyfnod Allweddol

7. DISGYBLION AG ANGHENION PELLACH		
Gweithredu	Pryd?	Yn cynnwys pwy?
7.1 Adolygiadau ar y cyd o ddisgyblion BI6 sydd â datganiadau	Blynyddol	SENCOs
7.2 Nodi 'disgyblion mwy galluog a thalentog';	Blynyddol	Cydlynnydd Uwchradd M.G.Th/M.A.T. ac athrawon BI5/6
7.3 Strategaethau ar y cyd i gynorthwyo plant agored i niwed [e.e. plant sy'n derbyn gofal]	Parhaus	Pastoral staff, Key Stage Officer, Child Protection Officer
7.4 Strategaethau ar y cyd i gynorthwyo plant sydd â Saesneg fel Iaith Ychwanegol. Rhannu ymarfer effeithiol yn y maes hwn	Parhaus	SENCOs/Cydlynwyr Saesneg fel Iaith Ychwanegol

Cymeradwywyd y Cynllun hwn gan Gorff Llywodraethol Ysgol _____

ar: _____

Arwyddwyd [ar ran y Corff Llywodraethol]: _____

Caiff ei adolygu ar: _____

CYNLLUN GWARIO CYFNOD ALLWEDDOL 2 - 3, 2009-10			
Income		Planned Expenditure	
Grant ysgolion sy'n canolbwyntio ar y Gymuned	-£18,450.00	Swyddog Cyfnod Allweddol [cyflog-£16,972; adnoddau-£1,278]	£18,250.00
Grant Pontio	£0.00	Prosiect Drama [staffio-£5,590 - 0.2fte; adnoddau-£1,000]	£6,590.00
Grant CA 2-3	-£50,010.00	Gwaith safoni [cost cyflenwi – 12 dydd]	£1,560.00
		Meddwl Ymlaen [costau cyflenwi-£2,600 - 20 dydd]	£2,600.00
		Rhith-amgylchedd Dysgu (VLE) [121 dydd-£19,965; adnoddau-£2,035]	£22,000.00
		Sgiliau Allweddol [adnoddau-£500]	£500.00
		Ymarfer Corff a Chwaraeon Ysgol (PESS)	£0.00
		Hunan werthuso	£0.00
		Menter Asesu er mwyn Dysgu	£0.00
		Dyddiau Pontio [3xY5 dydd - trafndiaeth + 6 dydd cyflenwi; 3xdydd gwibdaith bydi - trafndiaeth + 15 dydd cyflenwi; 2xdydd yn yr ysgol - trafndiaeth + 4 dydd cyflenwi] - 25 dydd cyflenwi=£3,250; trafndiaeth=£2,500 Gwibdaith byd + £1,500 Dyddiau B15 + £870 Dyddiau B16	£8,120.00
		Gweinyddu CA2-3	£1,340.00
		Safoni gwaith ysgrifenedig Cymraeg [20 dydd cyflenwi]	£2,600.00
		Dydd HMS-[cyflenwi + costau]	£2,300.00
		Cyflenwi [cyfarfodydd ac ati] - 20 dydd cyflenwi	£2,600.00
TOTAL	-£68,460.00		£68,460.00